

CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn/ Issue 12 Mehefin/ June 2024



Gair gan y Cadeirydd

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod bob mis (ac eithrio mis Awst) ac mae ganddo gyllideb o tua £20,000 i'w gynnal, cyflogi clerc ac ariannu gweithgareddau a phrosiectau o fewn y gymuned. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y praesept sy'n rhan o'ch Tâl Cymunedol gan Sir Ddinbych. Mae'r cyngor wedi sefydlu tri phrif faes datblygu ar gyfer y gymuned: Cydlyniant cymdeithasol a digwyddiadau i ddod â'r gymuned ynghyd, Mynediad a Diogelwch a gwelliannau i'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo. Dyma grynodeb o waith y cyngor yn ystod 2023/4.

Cydlyniant Cymdeithasol

Ym mis Awst cynhaliwyd Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn y Griffin. Ym mis Hydref, fe wnaethon ni greu Llwybr Calan Gaeaf, ac ym mis Tachwedd fe gawsom yr arddangosfa tân gwyllt. Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig a chinio Nadolig a fynychwyd yn dda. Ym mis Mawrth fe gynhalion ni ginio Dydd Gŵyl Dewi, eto gyda nifer dda yn bresennol. Fodd bynnag, gohiriwyd Ceilidh Dydd Gŵyl Dewi am nad oedd digon o gefnogaeth. Fe wnaethom hefyd gynnal Boreau Coffi bob yn ail wythnos dros y gaeaf 2023 i 2024. Roedd cefnogaeth yn y gymuned i hyn ond oherwydd diffyg cyllid parhaus gan CSDd a diffyg gwirfoddolwyr i osod byrddau a chadeiriau a gwasanaethu, yn anffodus bu'n rhaid canslo.

From the Chair

The Community Council meets every month (with the exception of August) and has a budget of approximately £20,000 with which to run itself, employ a clerk and fund activities and projects within the community. This figure is made up of the precept which is part of your Denbighshire Community Charge. The council has established three main areas of development for the community: Social cohesion and events to bring the community together, Access and Safety and Improvements to the Environment in which we live. Here is a summary of the work of the council during 2023/4.

Social Cohesion

In August we put on a Family Fun Day at the Griffin. In October, we created a Halloween Trail, and in November we mounted the fireworks display. December saw the Christmas lights switch on event and a well-attended Christmas lunch. In March we held a St David's Day lunch, again well-attended. However a planned St David's Day Ceilidh was postponed due to lack of support. We also held bi-weekly Coffee Mornings over the winter 2023 to 2024. There was support in the community for this but due to a lack of continued funding from DCC and a lack of volunteers to set up tables and chairs and serve, regrettably this had to be cancelled.

Tîm bach iawn o aelodau a gwirfoddolwyr wnaeth gynnal yr holl ddigwyddiadau hyn, ac os na allwn gael mwy o bobl i helpu, fydd digwyddiadau allweddol sy'n rhan o'r calendr cymdeithasol fel y cinio Nadolig a chinio Dydd Gŵyl Dewi ddim yn digwydd.

Yr Amgylchedd

Mae grŵp o wirfoddolwyr yn cynnal a chadw mynwent hen Eglwys San Pedr yn rheolaidd, ac mae wedi gwella'n fawr. Fe wnaethom hefyd greu'r gwelyau blodau newydd ym Maes Derwen, sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Bu gwirfoddolwyr yn helpu gyda'r plannu. Mae'r gyfnewidfa lyfrau yn y lloches bws yn gweithio'n dda, ac rydym yn ariannu llawfeddygon coed i weithio ar y tair coeden fedw arian yno. Diolch i Caroline Duckworth mae'r ardd lechi'n llwyddiant ysgubol. Mae angen glanhau ac ail-staenio dwy o'r meinciau hyn, a bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod y gwanwyn yma. Mae'r fainc yng Nghoed y Waen i'w hadfer. Mae'r cyngor yn ariannu torri gwair yn rheolaidd ledled y gymuned, ac rydym yn annog blodau gwyllt ar hyd yr A494 gyferbyn â'r Efail.

All of these events were put on by a tiny team of members and volunteers and if we can't increase the numbers of people willing to help out, key events embedded in the Social calendar like the Christmas lunch and the St David's Day lunch will not take place.

The Environment

The Old St Peter's churchyard is regularly maintained by a group of volunteers, and is much improved. We also created the new flowerbeds at Maes Derwen, which have been a great success. Volunteers helped with the planting. The book exchange in the bus shelter is working well, and we are funding tree surgeons to work on the three silver birch trees there. Thanks to Caroline Duckworth the slate garden has been an outstanding success. Two of the older benches need cleaning and restaining, which will be done this spring. The bench at Waen Woods is to be restored. The council funds regular grass cutting throughout the community. We're encouraging wild flowers along the A494 opposite the Smithy.



Gair gan y Cadeirydd

Mynediad a Diogelwch

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r cyfyngiad cyflymder mewn rhannau o'r pentref wedi ei ostwng i 20mya, ond cafwyd nifer o gwynion o hyd gan y cyhoedd ynghylch goryrru. Mae'r cyngor cymuned wedi cysylltu â thrigolion yn eu gwahodd i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau / damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd ar ffyrdd y pentref y maent yn ymwybodol ohonynt. Y bwriad yw cyflwyno'r rhain i Gyngor Sir Ddinbych er mwyn iddynt allu cymryd camau priodol ar gyfer gostwng cyflymder.

Mae trafodaethau wedi bod (ac yn parhau) gyda'r ysgol gynradd leol ynglŷn â'r cyfyngiad cyflymder 60mya yno. Mae'r grŵp Gwyllo Cyflymder yn monitro cyflymder o fewn y pentref o bryd i'w gilydd. Gwnaed cais am leoliadau monitro ychwanegol newydd ar y B5429, ac mae'r rhain yn cael eu hasesu ar hyn o bryd gan dîm GanBwyll

Rydym hefyd wedi bod yn weithgar yn natblygiad Band Eang yn y gymuned: sefydlodd y Cyngorwyr Cymuned Bartneriaeth Gymunedol Ffibr Rhuthun a Llanbedr i sicrhau cyllid grant i ddarparu cysylltiadau ffibr llawn (FTTP) i gannoedd o gartrefi a busnesau yn Llanbedr DC a'r cyffiniau. O ganlyniad i waith a wnaed gan Openreach yn 2023/24, mae FTTP bellach ar gael i 242 o gartrefi/busnesau yn y gymuned. Mae Openreach bron â chwblhau'r prosiect gyda dim ond 5 eiddo ar ôl. Oni bai am y Bartneriaeth Gymunedol,

From the Chair continued...

Access and Safety

Over the past year the speed limit in parts of the village has been reduced to 20mph. There have however still been a number of complaints from the public regarding speeding. The community council have contacted residents inviting them to advise of any incidents or near misses on the roads in the village that they are aware of. The intention is to present these to Denbighshire CC for them to undertake appropriate measures for speed calming.

Discussions have taken place, (and are ongoing) with the local primary school regarding the 60mph speed limit there. The Speed watch group is undertaking periodic monitoring of speeds within the village. New additional monitoring locations have been applied for within the B5429 - these are currently being assessed by the GoSafe team.

We've also been active in the development of Broadband within the community: Community Councillors set up the Ruthin Llanbedr Fibre Community Partnership to secure grant funding to deliver full fibre (FTTP) connections to hundreds of homes and businesses in and around Llanbedr DC. As a result of works carried out by Openreach in 2023/24, FTTP is now available to 242 homes/businesses in the community. Openreach are nearing completion of the project with only 5 premises remaining.

mae'n debyg y byddai llawer un y gymuned wedi gorfod aros am flynyddoedd lawer am gysylltiad ffibr llawn.

Ond ar hyn o bryd mae'r cyngor yn wynebu argyfwng o ran cyfranogiad. Mae tair sedd wag ar y cyngor, rydym yn cael trafferth eu llenwi, ac mae prosiectau cymunedol o bob math dan fygythiad oherwydd diffyg gwirfoddolwyr, fel y gwelwyd uchod. Ystyriwch ymuno â ni, naill ai fel Cyngorydd Cymuned neu fel gwirfoddolwr. Fel maen nhw'n ddweud, "Use it or lose it!" Hyd yn oed drwy wirfoddoli am un digwyddiad y flwyddyn, byddwch chi'n ein helpu ni'n aruthrol. Gallwch ddod draw unrhyw adeg i gyfarfod cyngor i gael blas o'r hyn rydyn ni'n ei wneud (maen nhw i gyd yn agored i'r cyhoedd) a gallwch fynychu naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Cysylltwch â Tim Baker ar 07977555203 neu ar baker.eames@virgin.net i holi am ddod yn gynghorydd neu ymuno â'r rhestr gwirfoddolwyr.

Diolch o galon i bawb sydd wedi gwirfoddoli gyda ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tim Baker
Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbedr

Had the FCP not been set up, it is likely that many in the community would have waited several years for a full fibre connection.

Currently the council is facing a crisis of participation, however. There are three spare seats on the council, which we are struggling to fill, and community projects of all sorts are under threat due to a lack of volunteers, as you will have read above. Please consider joining us, either as a Community Councillor or as a volunteer. As the saying goes "Use it or lose it!" If you only volunteer for one event a year you will help us out hugely. You can always come along to a council meeting to get a flavour of what we do (they are always open to the public) and you can attend either in person or on line. Please contact Tim Baker on 07977555203 or at baker.eames@virgin.net to enquire about becoming a councillor or joining the volunteer list.

Many thanks to all of those who have worked with us as volunteers over the past year.

Tim Baker
Llanbedr Community Council Chairman

Neuadd Bentref Llanbedr

Roeddwn wrth fy modd pan gefais wahoddiad i ysgrifennu erthygl i'r cylchgrawn. Mae'n arf cyfathrebu hollbwysig i'r pentref; gan nad yw llawer o drigolion oedrannus yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol, maen nhw'n dibynnu ar gopi caled ac ar dafod leferydd am wybodaeth.

Felly, be sy'n digwydd yn y Neuadd? Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi croesawu tri grŵp newydd,- Dawnsio Salsa, Cadw'n Heini ac Yoga Seiniau Symffoni.

Y newyddion mawr ydi ein bod ni am gael system wresogi newydd sbon trwy garedigrwydd Certas/Hafod Renewables, felly bydd y Neuadd ar gau o ddydd Mawrth Mai 7fed i ddydd Gwener Mai 11eg. Bydd y system yn cynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer mwy ynghyd â rheiddiaduron, thermostat a chyfarpar trydanol i'w gweithio. Bydd y pwmp gwres yn gallu darparu ar gyfer rheiddiaduron ychwanegol os oes angen. Am y 6 mis diwethaf rydym wedi bod yn dioddef oherwydd thermostat anghyson oedd yn golygu tymheredd yn cyrraedd 30c yn lle 20c fel sydd i fod. Oherwydd hyn roedden ni'n cael biliau ynni 10 gwaith yn uwch na'r un cyfnod y llynedd. Yn naturiol mae hyn wedi rhoi straen ariannol ar gyllid y Neuadd. Mae Certas/Hafod wedi cydnabod bod y cynnydd yn y bil ynni oherwydd eu hoffer diffygiol nhw, ac ar wahân i roi system newydd i

Llanbedr Village Hall

I was delighted to receive an invitation to write an article for the magazine as it is a vital communication tool for the village; many elderly residents are not involved with social media relying on hard copy and word of mouth for information.

So what is happening at the hall? Over the past few months, we have welcomed three new groups, Salsa Dancing, Keep Fit and Symphony Sounds Yoga.

The big news is we are to get a completely new heating system courtesy of Certas/ Hafod Renewables. The hall will be closed from Tuesday May 7th to Friday May 11th. The installation will involve a larger air source heat pump to be fitted along with new radiators, thermostat and electrics. The heat pump will have the capacity to accommodate additional radiators if needed. For the past 6 months we have been suffering from an erratic thermostat resulting in temperatures reaching 30c instead of the pre-set requirement of 20c. This has resulted in receiving energy bills 10 times higher than the same period last year. Naturally this has put a financial strain on the hall finances. Certas/Hafod have acknowledged the increase in the energy bill is due to their faulty equipment and apart from putting in a new system will enter into negotiations regarding compensation.

mewn fe fyddan nhw'n dechrau trafod iawndal.

Yn naturiol ddigon, mae Pwyllgor y Neuadd wrth eu bodd gyda chanlyniad o'r fath i sefyllfa oedd yn peri gofid mawr.

Gyda'r neuadd bron yn llawn ar gyfer archebion a'r problemau gwresogi'n cael eu datrys, toes na ddim bwriad cynyddu ffioedd llogi am 2 flynedd arall.

Cyn bo hir byddwn yn chwilio am Wirfoddolwyr i helpu gyda'r garddio a thacluso o gwmpas y Neuadd. Dwi wrthi'n trafod y mater ar hyn o bryd gyda Chydlynedd Gwirfoddoli CSDd.

Mae Gwasanaeth Symudol Swyddfa'r Post wedi newid dydd ac amser unwaith eto. O'r 7fed o Fai bydd y fan yn galw ar fore dydd Mawrth am 11.15-11.45.

Ron Bell
Cadeirydd Neuadd Bentref Llanbedr

Naturally, the Hall Committee are delighted with the resulting outcome in what was a very worrying situation.

With the hall nearing capacity for bookings and the heating issues being resolved it is planned not to increase hire fees for another 2 years.

We will shortly be looking for Volunteers to help with the gardening and appearance at the Village Hall. I am at present discussing this with DCC Volunteer co-ordinator.

The mobile Post office Service has again changed their attendance day and time. From the 7th May the van will call on a Tuesday at 11.15-11.45

Ron Bell
Llanbedr Town Hall Chairman



Yr Ardd Lechi

Pan ddois i yma i fyw rhai blynyddoedd yn ôl roeddwn yn methu peidio meddwl bod yr Ardd Lechi yn edrych braidd yn ddiflas. Felly fe es i at y Cyngor Cymuned a gofyn a fyddai modd creu gwely blodau y byddwn i'n bod yn gyfrifol am ei gynnal. Fe wnaethon nhw gytuno, paratoi'r gwely a dweud y byddent yn talu am y planhigion yr oeddwn eu hangen. Wedyn bu'n rhaid i mi lunio cynllun. Penderfynais yn hytrach na rhoi detholiad o blanhigion parhaol i mewn y byddwn yn ceisio creu gwedd wahanol bob gwanwyn a haf. Peidiwch â meddwl mod i'n arddwr proffesiynol! Dwi'n arddwr brwdfrydig, felly nid yw'r canlyniadau bob amser wedi cyrraedd y disgwyliadau. Fy ngobaith pennaf ydi creu llecyn siriol a lle dymunol i eistedd am blwc.



Yna gofynnwyd i mi helpu gyda'r gwelyau blodau wrth ymyl y Goeden Heddwch wrth fynedfa Eglwys San Pedr, ac fe gytunais. Mae hyn wedi bod

The Slate Garden

When I moved here a few years ago I always thought the Slate Garden looked a little drab so I approached the Community Council and asked if a flower bed could be created and that I would take responsibility for its upkeep. They agreed, had it put in and said they would pay for the plants I needed. I then had to come up with a plan. I decided rather than putting in a selection of permanent plants I'd try to create a different look each spring and summer. Now, I am not a professional gardener just an enthusiastic one so the results haven't always come up to expectations. Mostly though I hope to just make it cheery and a pleasant place to sit awhile.

I was then asked and agreed to help with the flower beds by the Peace Tree at the entrance to St Peter's Church. This has been more tricky as traffic pollution and salt spreading have made it hard for many plants to survive. However, gardening is a hobby of hope so we will keep trying.

Gardening is a passion though during the winter I can't say I have to do much other than keeping the beds relatively tidy. The remainder of the year, I can spend a good few hours a week keeping the beds tidy. The best part of doing this is having an idea of how I'd like the beds to look but not really knowing if my plans have worked until seeing the results when everything comes to life. On top of that is the

yn fwy dyrys gan fod llygredd traffig a lledaeniad halen wedi ei gwneud yn anodd i lawer o blanhigion oroesi. Ond hobi 'obeithiol' ydi garddio, felly byddwn yn dal ati. Dwi'n angerddol dros arddio, ond yn ystod y gaeaf ni allaf ddweud bod yn rhaid i mi wneud llawer heblaw cadw'r gwelyau yn gymharol daclus. Gweddill y flwyddyn, gallaf dreulio oriau lawer yr wythnos yn cadw'r gwelyau'n daclus. Y rhan orau o wneud hyn yw cael syniad o sut hoffwn i'r gwelyau edrych ond heb wybod os ydi fy nghynlluniau wedi gweithio nes gweld y canlyniadau pan fydd popeth yn tyfu. Ar ben hynny mae adborth cadarnhaol y bobl sy'n mynd heibio pan ydw i'n garddio, yn dweud eu bod wrth eu bodd yn gweld y blodau.

Mae'r tiwllips wedi bod yn anhygoel y gwanwyn hwn. Mae'r Cyngor hefyd wedi plannu coeden geirios a llwyn Cornus Kousa yn lle'r ddau llwyn enfawr oedd yna, a bydd y ddau ohonynt yn y blynyddoedd i ddod yn dod a lliw ychwanegol i'r ardd yn y gwanwyn.

Mae'r Cyngor Cymuned hefyd wedi gosod tri gwely mawr iawn ar y grŵn ger tai Maes Derwen y rhoddwyd y rhan fwyaf o'r planhigion ar eu cyfer gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae cannoedd hyn o gennin Pedr wedi eu plannu hefyd o amgylch y pentref, ac roedden nhw'n edrych yn wych y gwanwyn hwn.

Bydd Llanbedr DC yn frith o liw'r haf yma!

Croeso i chi ddod draw am sgwrs os oes gennych chi funud.

positive feedback of people that pass by as I am out and about who tell me that they love to see the flowers.

The tulips this spring have put on a tremendous display. The Council has also replaced the two huge shrubs with a cherry tree and Cornus Kousa shrub, both of which will in the coming years provide additional spring colour.

The Community Council has also put in three very large beds on the green by the houses on Maes Derwen for which most of the plants were donated by Denbighshire County Council. On top of these hundreds of daffodils have been planted around the village which looked fantastic this spring.

Llanbedr DC is going to be awash with colour this summer!

Feel free to come and say hello if you have a moment.



Cystadleuaeth Arddio Llanbedr

Eleni mae'r Cyngor Cymuned yn trefnu cystadleuaeth ar gyfer dau fath o ardd, y Taclusaf a'r Mwyaf Cyfeillgar i Fywyd Gwyllt. Nod y prosiect yw cael mwy o bobl i gymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd yn y gymuned. Mae ambell ardd daclus drawiadol iawn wedi'i chynnwys yn y gystadleuaeth, ond byddem wrth ein bodd yn gweld mwy, yn enwedig gerddi bychan o flaen tŷ.

Gellir cynnwys unrhyw beth yn y categori Cyfeillgar i Fywyd Gwyllt. Roeddwn i'n arfer treulio oriau lawer o fy amser hamdden gwerthfawr yn torri gwair, a chwynnu dant y llew a llygaid y dydd fel bod fy lawnt i'n edrych yn well na rhai fy nghymdogion. Ond erbyn hyn mae unrhyw beth yn iawn, a chroeso i bob chwynnyn. Mae wedi dod yn ffasiynol gadael rhannau o'r ardd i dyfu'n wyllt, torri'r ymyl a gadael i natur fwrw iddi. Ac mae gwir angen cymorth gennym ni ar ieir bach yr haf, gwenyn a phryfed eraill.

Mae Llanbedr yn lle gwyh i fyw, ac mae yma erddi rhagorol ond gadewch i'r pentref hefyd ddod yn hafan gorau posibl i fywyd gwyllt trwy adael rhan os nad y cyfan o'ch gardd i fywyd gwyllt.

Gobeithiwn y gwnewch chi ystyried cymryd rhan yn y gystadleuaeth ac ym mywyd y gymuned a'r pentref.

Llanbedr Garden Competition

This year the Community Council is organising a competition for two types of garden, Best Kept and Most Wildlife Friendly. The aim of the project is to get more people involved in community participation. We have had some very impressive best kept gardens entered but we would love to see more, especially small front gardens.

In the Wildlife Friendly section anything can be entered. As someone who spent a lot of precious leisure time cutting grass, digging out dandelions and daisies so my lawn looked better than my neighbours, now anything goes, all weeds are welcome. It has become acceptable to leave sections of the garden to grow wild, just mow the edge and let nature get on with it. Butterflies, bees and other insects desperately need our help.



Llanbedr is a fantastic place to live, with some excellent gardens but let it also become best possible haven for wildlife by leaving some if not all your gardens to wildlife.

We hope you will be considering entering your gardens and getting involved with the village community.

Llanbedr Garden Competition

*This year Llanbedr Community Council
are starting a
Garden Competition*

Enter your garden in one of the following categories.

1. Best Kept Garden-Front, Back, Baskets or Containers

Winner - £100 Second - £50


2. Most Wildlife Friendly Garden

Winner - £100 Second - £50

The competition is open to all, no matter the size of your garden. The competition will be judged in the first week of August.

To enter contact Lyn Evans.
Email: lynevans41@yahoo.com

This is our first attempt at such a competition, let's see how it develops, give it a try, beat your neighbours.



Newyddion Eglwys San Pedr

Yr adeg hon y llynedd fe gaeodd yr eglwys er mwyn gwneud newidiadau i'r tu mewn a chynhaliwyd yr holl wasanaethau yn Neuadd y Pentref am dri mis. Tynnwyd y seddau a chadwyd chwech ohonynt er mwyn rhoi castors oddi tanynt i'n galluogi i'w symud a'u gosod unrhyw le yn yr eglwys. Gosodwyd toiled gyda chyfleusterau i'r anabl yn y cefn ac ystafell arlwyo/cegin fach ar yr ochr arall.

Yn ystod y chwe mis diwethaf rydym wedi cynnal cyngherddau, Ffair Nadolig yr Ysgol, ymarferion Côr ac Ysgol Ddawns. Ym mis Ebrill cynhaliwyd Arwerthiant Planhigion gyda lluniaeth y tu mewn a daeth nifer dda o drigolion Llanbedr draw i fwynhau prynhawn cymdeithasol iawn.

Oherwydd y man agored newydd, gallwn drefnu'r seddau i weddu i'r gwahanol wasanaethau a gynigir. Mae ein gwasanaethau ar y Sul yn cael eu cynnal yn y ffordd arferol, tra bod y seddau yn llai ffurfiol yn ystod yr wythnos. Unwaith y mis mae gennym wasanaeth Nos Fawrth gwahanol. Mae 'The Sound Bath Meditation' yn 40 munud o ymlacio ac amser tawel gyda'r synau'n dod o'r bowlenni lliw. Os hoffech chi brofi myfyrdod 'Sound Bath' maent yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth 1af y mis am 6 yr hwyr, felly bydd y ddau nesaf ar y 4ydd o Fehefin a'r 2il o Orffennaf.

St Peters Church news

This time last year the church closed for some alterations to the inside and all services were held at the Village Hall for three months. The pews were removed and six were kept and castors placed underneath to enable us to place them anywhere in the church. A toilet with disabled facilities was fitted at the back and a small servery/kitchen on the other side.

During the last six months we have held concerts, School Christmas fair, Choir practices and Dance School. In April a Plant Sale was held with refreshments inside which was well attended by residents of Llanbedr enjoying a very sociable afternoon.

With the open space we can arrange the seating to suit the different services on offer. Our Sunday services are held in the usual way, while on a weekday the seating is less formal. Once a month we have a Tuesday Evening service with a difference. The Sound Bath Meditation is 40 minutes of relaxation and quiet time with the Sounds from the coloured bowls. If you'd like to experience the Sound Bath meditation they are held on the 1st Tuesday of the next two will be on the 4th June and 2nd July.

Cantorion Dyffryn Clwyd yw ein Côr Cymunedol sy'n cyfarfod yn yr Eglwys ar nos Iau ac yna'n perfformio cyngherddau ar ddiwedd pob tymor. Mae'n gôr hamddenol heb angen unrhyw brofiad blaenorol ac rydym bob amser yn barod i groesawu aelodau newydd.

Mehefin 15 - Bore coffi yn THE BARN Llanbedr dan ofal Brian a Hazel.

Mehefin 29 am 4 y prynhawn - Gwasanaeth i ddathlu Dydd San Pedr yn yr Eglwys. Bydd Cantorion Dyffryn Clwyd yn canu'r Offeren Jazz Bach a bydd y Tad Huw yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed fel Offeiriad gyda llymed ar ôl y gwasanaeth.

Gorffennaf 5 am 7 yr hwyr - Cyngerdd awyr agored gan Gantorion Dyffryn Clwyd gyda lluniaeth ysgafn tu fewn.

Ar ddiwedd pob tymor, mae Ysgol Llanbedr yn cynnal gwasanaeth arbennig yn yr eglwys. Ac yma hefyd maen nhw'n cynnal eu gwasanaeth diolchgarwch cynhaeaf a'u sioeau Nadolig. A byddwn ni ac eraill yn cymryd rhan yn nigwyddiad goleuo'r Goeden Nadolig yn y pentref ym mis Rhagfyr.



The Dyffryn Clwyd Singers is our Community Choir which meets in the Church on Thursday evenings and then perform concerts at the end of every term. It's a relaxed choir with no previous experience needed and we're always ready to welcome new members.



June 15th - A coffee morning at THE BARN Llanbedr hosted by Brian and Hazel.

June 29th 4pm - A service to Celebrate St Peter's Day at the Church. The Dyffryn Clwyd Singers will be singing the Little Jazz Mass setting and Tad Huw will celebrate his 10th Anniversary as a Priest with drinks after the service.

5th July 7pm - An outside concert by the Dyffryn Clwyd Singers with refreshments inside.

Llanbedr School at the end of every term have a special service at the church, they also hold their harvest thanksgiving and Christmas shows at the church. We will be involved with others in switching on the Christmas Tree lights in the village in December.

Newyddion Eglwys San Pedr

10.30am fore Sul - gwasanaeth Cymun Bendigaidd dwyieithog; 6 o'r gloch nos Fawrth - Cymun Bendigaidd 30 munud; 9.30 bore Mercher - Gwasanaeth Cymun 20 munud; a 9.30 fore Iau - gwasanaeth Cymun Bendigaidd 20 munud yn y Gymraeg.

Mae'r eglwys ar agor pob dydd i unrhyw un sy'n dymuno cynnau kannwyll neu weddïo dros rywun neu eistedd a chael coffi a chacen. Dyfarnwyd dwy wobwr arbennig i'r eglwys yn ddiweddar, - y Gyntaf am yr eglwys gyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr Aur gan A Rocha am fod yn Eglwys Eco. Ac ym mis Tachwedd fe enillon ni wobwr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi ar gyfer Categori Agored i Ymwelwyr.

Rydyn ni wastad yn chwilio am bethau newydd i'w gwneud ar gyfer y gymuned, felly os oes yna bethau yr hoffech chi eu gweld yn digwydd yn eich eglwys yna cysylltwch â ni. Gallwch hefyd logi'r eglwys ar gyfer grwpiau allanol ac achlysuron preifat, dim ond gofyn i'r Tad Huw neu Gwenda.

St Peters Church news continued...

Our services are 10.30am on Sunday a bilingual Holy Eucharist service, Tuesday 6pm a 30 minute Celtic Eucharist, Wednesday 9.30 am a 20 minute Communion Service and Thursday 9.30am a 20 minute Welsh Language Holy Eucharist service.

The church is open daily to anyone wishing to light a candle or pray for someone or sit and have a coffee and cake. The church was awarded two special awards recently. The First for the first church in Wales to win a Gold Award from A Rocha for being an Eco Church. In November we won the National Churches Trust award for The Open for Visitors Category.

We're always looking for new things to do for the community, so if there's things you'd like to see happen in your church then please get in touch. You can also hire the church for outside groups and private functions, just ask Tad Huw or Gwenda.

Ffermio yn Llanbedr

Efallai eich bod o'r farn mai criw sarrug, wastad yn grwgnach am rywbeth ydi ffermwyr. Bob amser yn cwyno am y tywydd neu am bobl yn cerdded cŵn ar eu tir. I ryw raddau mae hyn yn wir! Ond nid heb reswm da.

Fe welwch chi ffermwyr yn gweithio bob awr o'r dydd. Toes na ddim y fath beth â phenwythnos gan fod angen bwydo'r da byw o hyd. Mae'r tywydd yn cael effaith aruthrol ar faint y gallwn ei dyfu i fwydo ein stoc neu i gynhyrchu cynydau sy'n ein bwydo ni. Mae'n effeithio ar sut ydym ni'n amseru ein cynlluniau gwaith a'r hyn y gallwn ei wneud mewn wythnos, ac yn ei gwneud yn amhosibl ar adegau i gynllunio unrhyw beth ymlaen llaw.

Mae eleni'n arbennig wedi bod yn ofnadwy o wlyb, sy'n golygu nid yn unig ei bod hi'n dywydd annymunol i weithio yn yr awyr agored ond yn hollbwysig nid ydym wedi gallu plannu cynydau ar yr adeg y byddem fel arfer yn eu plannu. Gall yr oedi hwn olygu na fydd y cnwd yn tyfu cystal nac yn cynhyrchu cymaint ag arfer, ond eto mae'n dibynnu ar y tywydd dros yr Haf i benderfynu hyn.

Ac mae'r tir gwlyb hefyd yn effeithio ar yr amser y gallwn adael y gwartheg allan o'r siediau ar ddiwedd tymor y gaeaf, i bori yn y caeau dros yr haf.

Os byddwn yn eu gollwng allan i gaeau sy'n rhy wlyb bydd eu carnau trwm yn cloddio'r glaswellt ac yn gwneud

Farming in Llanbedr

You may think farmers are a grumpy bunch of wingers. Always moaning about the weather or people with dogs on their land. To some extent we are! But not without good reason.

You'll see farmers working all hours of the day and there's no such thing as a weekend as the livestock still need feeding. The weather has a massive impact on how much we can grow to feed our stock or to produce crops that feed us. It effects the timing of our work plans and what we can get done in a week and makes it impossible at times to plan anything ahead.



Coffee Morning at The Barn Llanbedr

June 15th 10.30-12.30am Raffle-Plants- Coffee.

Proceeds in Aid of Llanbedr Church

Ffermio yn Llanbedr

Llanast o'r cae i'r graddau na fydd digon o laswellt i'w bwydo. Felly rydym yn aros yn amyneddgar i'r tir sychu digon cyn eu gollwng allan i bori.

Erbyn i chi ddarllen hyn, gobeithio y bydd y gwartheg allan yn pori, gan y bydd hyn yn lleihau'r baich gwaith o'u bwydo a charthu'r siediau lle maen nhw'n byw dros y gaeaf. Dim ond ychydig enghreifftiau o sut mae'r tywydd yn effeithio ar ffermydd ydi hyn. Credwch chi fi, mae llawer mwy! Felly dwi'n meddwl os oes gan unrhyw un yr hawl i gwyno am y tywydd, mae gan ffermwyr!

Mae pobl sydd yn cerdded cŵn heb dennyn yn broblem arall i lawer gan y gallant erlid neu hyd yn oed ddychryn y da byw ar adegau hollbwysig o'r flwyddyn pan fyddant gyda'u lloi neu ŵyn bach neu'n bridio. Gall unrhyw ofid yn ystod y cyfnod hwn olygu colli oen neu lo, sydd nid yn unig yn ofidus i ffermwr weld gwerth blwyddyn o fridio yn cael ei ddifetha, ond hefyd yn golled ariannol a allai olygu na fydd yn gwneud unrhyw elw'r flwyddyn honno. Pryder pellach fyth yw pan fydd cŵn yn troi at eu greddf naturiol ac yn dechrau mynd ar ôl a brathu da byw, gan eu lladd ar adegau.

Efallai eich bod yn meddwl na fyddai eich ci bach annwyl chi byth yn gwneud unrhyw beth o'r fath, ond yn anffodus unwaith y mae hyn wedi digwydd, mae'n rhy hwyr i droi'r cloc

Farming in Llanbedr continued...

This year in particular has been terribly wet, meaning not only is it unpleasant weather to be working outdoors but crucially we've been unable to plant crops at the time we'd normally plant them. This delay may mean the crop won't grow as well or produce as much as usual, but again we're dependant on the type of weather over the Summer to determine this.

The wet ground also impacts the time we can let the cattle out of their winter housing for their Summer at grass.

If we let them out onto fields that are too wet their heavy hooves will dig up the grass and make a mess of the field to the extent that there won't be enough grass to feed them. So we patiently wait for it to become dry enough before we can release them out to graze.

By the time you're reading this hopefully the cattle will have gone out to graze, which will reduce the workload of feeding and bedding them in the sheds they are housed in over winter.

These are only a few things weather effect on a farm, believe me there are many more! So I think if anyone has the right to moan about the weather, farmers have!

yn ôl. A hyd yn oed os na fydd eich ci chi'n bendant yn mynd ar ôl y defaid, mae ei gael oddi ar dennyn o amgylch da byw yn gwneud i eraill feddwl ei bod yn iawn iddyn nhw wneud hynny hefyd, a byddant yn gadael i gi llai dibynadwy oddi ar y tennyn i achosi anhrefn. Felly helpwch i sicrhau bod pob perchennog ci yn gyfrifol ac yn cadw ei gi ar dennyn o amgylch da byw

ni waeth beth yw ei natur.

Rhian Whittam



People with dogs off lead is another issue with many as they may chase or even just frighten the livestock at crucial times of the year when they're with their young or breeding. Any upset during this time can mean they loose their lamb or calf which isn't just upsetting for a farmer to see a years worth of breeding ruined, but also a financial loss which may mean they won't make any profit that year. Even further worry is when dogs turn to their natural instinct and start chasing and biting livestock, sometimes killing them.

You may think my little poochie would never do that, but sadly once it's gone and done it, it's too late to turn the clock back. And even if your dog definitely won't chase the sheep, just having it off lead around livestock makes others think it's ok to do so and they'll let there less trusted dog off lead to cause chaos. So please help ensure everyone is a responsible dog owner by keeping your dog on a lead around livestock no matter what temperament they are.

Rhian Whittam



Beicio i Lawr Mynydd

Dechreuodd y cyfan y Nadolig pan oeddwn i'n 12 oed, pan gefais feic yn anrheg, a'm ffrindiau i gyd yn cael beiciau hefyd! Aethom allan i gloddio traciau a llefydd i neidio yn y goedwig, gan weld pwy oedd y cyflymaf, neu pwy oedd yn gallu neidio bellaf.

Roeddem wastad yn gystadleuol, yn ymdrechu i guro ein gilydd ar bob cyfle, felly yn naturiol dyma ddechrau mynd i rasys swyddogol ar ôl gweld 'Downhill Mountain Biking' ar Channel 4 ym 1999! Dyma le rydych chi'n cychwyn fesul un bob 30 eiliad. Eich her - i fod y person cyflymaf i lawr cwrs dynodedig, o ben i waelod mynydd, trwy goedwigoedd, dros rwystrau, neidiau, a rownd corneli.

Mae rasio ar drac fel arfer yn para rhwng dau a phum munud, ac mae angen nid yn unig llawer iawn o sgiliau trin beic, ond cydbwysedd a ffitrwydd goruchaf, gan fod pob degfed o eiliad yn cyfrif! Mae'r rasys fel arfer wedi gwerthu allan, gyda dros 300 o geisiadau ym mhob categori.

Pam mod i'n gwneud hyn? Oherwydd y wefr neu'r adrenalin i ddechrau, ond buan iawn y bydd rhywun yn blino ar hynny, a daw'r mwynhad wedyn o'r agwedd dechnolegol o feistrolï cwrs, rhoi eich perfformiad gorau un, gweithio tuag at nod ffitrwydd, ac wrth gwrs - ennill!

Cefais flas ar lwyddiant am y tro
cyntaf yn y Categori Ieuenctid ym
Mhencampwriaethau Cenedlaethol

Downhill Mountain Biking

It all started one Christmas when I got a bike for Christmas when I was 12, all of my friends also got bikes! We went out digging tracks and jumps in the woods, seeing who could go faster or jump further.

We were always competitive, striving to beat our friends at every opportunity, so naturally we started going to sanctioned races after seeing Downhill Mountain Biking on Channel 4 in 1999! This is where you are set off individually at 30 second intervals. Your challenge- to be the fastest person down a designated course, from the top to bottom of a mountain, through woods, over obstacles, jumps, around corners.

Tracks usually last between two and five minutes, and require not only a huge amount of bike handling skills, but supreme balance and fitness, as every tenth of a second counts! The races are usually a sell out, with over 300 entries across all categories.

Why do I do it? Well at first it was the adrenaline buzz, but that soon wears off, and the enjoyment then comes from the technicality of mastering a course, optimising your own performance, working towards a fitness goal, and of course - winning!

I first tasted success in the Youth Category at the British National Championships, when I was only

Prydain, pan oeddwn ond yn 16
oed, gan ddod yn Bencampwr Cyfres
Gyffredinol Prydain a Phencampwr
Cenedlaethol Cymru'r un flwyddyn!

Cefais nawdd y flwyddyn ganlynol gan gwmni beiciau enwog Giant Bicycles, Michelin Tyres a brand dillad Eidalaidd a dillad diogelwch Dainese. Yn anffodus, fe wnaeth anaf i'm pen-glin y flwyddyn ganlynol roi'r gorau i yrfa bosibl yn y gamp, lle mae llawer o weithwyr proffesiynol ar gyflogau uchel yn fyd-eang ar hyn o bryd.

Cymerodd 3 blynedd i'r anaf wella, a llawer mwy i ddod yn bencampwr eto, ond yn y pen draw roeddwn yn Bencampwr Cenedlaethol Prydain unwaith eto yn 2005 yn y categori Hŷn, a Phencampwr Cenedlaethol Cymru yn y rhengoedd Elitaidd yn 2006.

Ar ôl cystadlu ar lwyfan byd-eang yn 2007 yn beicio ar gyfer Intense Cycles California lle teithiais i lefydd fel Sbaen, Awstria a'r Swistir a helpu'r cwmni i ddatblygu eu beic Downhill newydd gyda mewnwleidiad technegol ac adborth, penderfynais roi'r gorau i fy mreuddwyd o fod yn feiciwr mynydd



Beicio i Lawr Mynydd

proffesiynol cyflogedig, oherwydd llawer o anafiadau. Mae'n gamp hynod o beryglus gyda chyflymder hyd at 45mya yn aml ddim ond milimetrau oddi wrth goed a rhwystrau eraill, ac mae damweiniau ac anafiadau difrifol yn gyffredin.

Dwi'n dal i reidio fel hobi, ar yr un pryd â sefydlu fy musnes Cutting Hedge Landscapes Ltd, wedi'i leoli'n wreiddiol yn yr Wyddgrug. Awn 16 mlynedd ymlaen yn gyflym ac mae'r busnes hwnnw'n dal i ffynnu. Gyda fy mhrofiad helaeth, yn benodol mewn trin coed, sefydlais Ruthin Tree Care Ltd y llynedd i gyd redeg 0226'r busnes arall, gyda Simon Marshall, sydd hefyd yn byw yn Llanbedr DC yn bartner busnes i mi.

Deuthum yn ôl i rasio beiciau yn 2022 mewn disgyblaeth fwy newydd - 'Enduro'. Mae hyn bron mor boblogaidd â'r ddisgyblaeth 'Downhill' lle rydych chi'n dal i gael eich amseru o ben i waelod mynydd, ond gyda datblygiadau technolegol modern mae beiciau'n llawer gwell am fynd i fyny'r allt y dyddiau yma. Rydych yn cael eich amseru rhwng 4-8 cymal, ond mae'n rhaid i chi bedalu yn ôl i fyny'r mynydd i'r cam canlynol o fewn amser penodol, a'r holl amser o'r camau hynny sy'n ennill.

Cefais lwyddiant unwaith eto gan ddod yn Bencampwr Cyfres Enduro Cymru yn 2022 a 2023, ac roeddwn yn Ail Gyffredinol yng Nghyfres Genedlaethol Prydain yn 2023 yn y Categori Meistri.

Downhill Mountain Biking continued...

insight and feedback, I decided to give up on my dream of being a paid professional mountain biker, as injury plagued me. Being such a dangerous sport with speeds up to 45mph achieved often just millimetres from trees and other obstacles, crashes and severe injury is common.

I continued to ride as a hobby, whilst setting up my business Cutting Hedge Landscapes Ltd, originally based in Mold. Fast forward 16 years and that business is still going strong, and with all of my experience, specifically in tree surgery, I set up Ruthin Tree Care Ltd last year to run along side it, with my business partner Simon Marshall, also a resident of Llanbedr DC.

I came back to racing bikes in 2022 in a newer discipline - 'Enduro'. This is almost as popular as the 'Downhill' discipline where you are still timed from the top to the bottom of a mountain, but with modern technological advances bikes are much better at going uphill now too, so there is between 4-8 stages that are timed, but you have to pedal back up the mountain to the following stage within a certain time, and the cumulative time from those stages is the winner.

I achieved more success becoming Welsh Enduro Series Champion in 2022 and 2023, and was Second Overall in the British National Series in 2023 in the Masters Category.

Byddwn yn gwneud beth maen nhw'n ei alw'n lleihau'r coed bedw hardd ym Maes Derwen yn ddiweddarach yn y flwyddyn, sef yr amser gorau ar gyfer eu tocio. Byddwn yn lleihau uchder a thrwch y coed tua 20% yn gelfydd wrth gael gwared ar unrhyw ganghennau marw y mae coed bedw yn dueddol o'u cael. Bydd hyn yn sicrhau bod eu hiechyd yn cael ei gynnal am flynyddoedd i ddod, wrth roi gwell golygfeydd o'r Dyffryn l'r trigolion.

Os oes gennych ddiddordeb yn y gwasanaethau rydym yn eu cynnig, ein e-bost ydi info@ruthintreecare.co.uk neu gallwch ddod o hyd i ni ar Facebook ac Instagram fel Ruthin Tree Care Ltd.

Will Rowlands

We will be doing what's called a reduction on the beautiful Birch trees in Maes Derwen later in the year when the optimal time for pruning them is. We will sympathetically reduce the height and the thickness of the trees by around 20% while removing any dead branches that Birch trees are prone for having. This will ensure their health is sustained for years to come, whilst giving residents of houses all around better views of the Vale.

If you are interested in our services our email is info@ruthintreecare.co.uk or you can find us on Facebook and Instagram as Ruthin Tree Care Ltd.

Will Rowlands



2023 PMBA Enduro
Graythwaite, Lake District
Position 2/320

Storïau Llun

Picture Stories




Mae'r ardal Cyfnewid Llyfrau sydd wedi'i lleoli yn yr arhosfan bysiau o flaen Maes Derwen yn llawn ac mae lawer o lyfrau sy'n berffaith ar gyfer gwyliau'r haf.



The Book Exchange located in the Bus stop outside Maes Derwen is fully stocked and has lots of books perfect for the summer holidays.

Hen Eglwys San Pedr
Old St Peters Church



Digwyddiadau i ddod

Upcoming Events

Dydd Mercher 5ed o Mehefin
Cwis Tafarn Hwyl

Wednesday 5th June
Fun Pub Quiz

Dydd Sul Mehefin 16eg
Sul Y Tadau

Sunday 16th June
Father's Day

Dydd Mercher 19eg Mehefin
Cwis Tafarn Hwyl

Wednesday 19th June
Fun Pub Quiz

Dydd Iau 4ydd Gorffennaf
Blasu Gwin gyda Tanners Wine

Thursday 4th July
Wine Tasting with Tanners Wine

Dydd Gwener 19eg Gorffennaf
Parti Diwedd Tymor hefo "Blue Art Band"

Friday 19th July
"Blue Art Band" End of Term Party



Pont y tŵr

Freshly picked rustic garden style floral bouquets, grown and made to order from my garden in Llanbedr.

Tuswau blodau naturiol wedi eu tyfu, casglu a chreu yn arbennig i archebion yn ein gardd ni yn Llanbedr.

Free local delivery
Danfon yn lleol am ddim

Vouchers available / Talebau ar gael

www.pontytwr.co.uk



Plas Towerbridge * Ruthin * LL15 1UN * 07886 832145